



CYMDEITHAS THOMAS PENNANT


"The Father of Cambrian Tourists..."

Taith 2 - Pellter 5.5 m, cymer tua hanner diwrnod Treffynnon - Gowdal - Lôn Mertyn - Carmel Pantasaff - Pen-y-bâl – Treffynnon Pantasaff a Phen-y-bâl

[Man cychwyn Cyf
AO: 185760]

Mae'r daith hon yn cychwyn yn y
Maes Parcio ar ben Well Hill. Mae
yna arosfan bws yn yr
archfarchnad gerllaw.

Gan adael y maes parcio rhaid troi
i'r chwith i fynd i lawr yr allt
heibio'r eglwys Babyddol. Wedyn
mynd drwy'r giât at eglwys y
plwyf. Yna cerdded allan o'r
fynwent heibio'r giât yn pasio
Capel Gwenffrewi ar y dde gan
gerdded i lawr yr allt. Rydych yn awr yn Ffynnon Gwenffrewi.



Croeswch y ffordd i fynd heibio maes parcio bach i fyny'r lôn. Pan fo'r lôn yn cyrraedd hen gloddfa mwynau ewch yn syth ymlaen gan ddilyn trac fferm at y giât. O'r fan yma ewch ymlaen i fynd ar hyd llwybr sydd fwy na heb ar ochr chwith giât y fferm. Ewch ymlaen wedyn gan fynd ar ochr chwith pwll bychan. Ewch drwy ddwy giât mochyn i fynd tu ôl i'r cae chwarae ac i'r dde o'r adeilad i'r ffordd. Croeswch i Nant Eos.

Mae'r ffordd hon yn arwain at lwybr sy'n mynd dros gamfa i gae. Ewch dros y gamfa a throwch i'r chwith. Peidiwch â dilyn y trac ond cerddwch i fyny allt serth i'r dde o'r gwrych. Dilynwch y llwybr gyda'r gwrych ar y chwith i chi i fynd dros gamfa.

Croeswch ac ewch am y chwith i'r coed. Cariwch ymlaen ar eich union dros y weigrlodd i fynd dros gamfa ger giât i'r ffordd ger y tai. Trowch i'r chwith a dilynwch ymlaen i'r briffordd.

Trowch i'r dde a chroesi dros y ffordd i fynd i fyny'r ffordd cyn Halfway House i gyfeiriad Carmel. Yn syth ar ôl pasio Ffordd Ffynnon cymerwch y llwybr hefyd ar y chwith i'r caeau chwarae. Dilynwch y llwybr yng nghefn y tai ac ar gyrion y cae chwarae i fynd rhwng y tai a phentref Carmel.



CYMDEITHAS THOMAS PENNANT

"The Father of Cambrian Tourists..."

Croeswch dros y ffordd i fynd ar y llwybr i'r dde i Goed Carmel. Ewch ar y fforch i'r chwith i fyny'r allt ac i'r chwith o'r giat sydd wedi ei chloi, ac o amgylch y tir i drac sy'n dod a chi i fryn Carmel. Mae yna giat arall gyda Private arni sydd ddim gyda hawl tramwy.

Trowch i'r dde ar y diwedd a throi i'r chwith i fyny'r allt. Lle mae'r lôn yn gwyo i'r dde ewch yn syth ymlaen ger y bwthyn gwyn, a thros y gamfa i'r cae. Ewch i'r coed. Ar ôl cyrraedd y coed trowch i'r dde dros gamfa gan gerdded gyda'r coed ar y chwith dros gamfa arall. Ewch ymlaen tan i chi gyrraedd y lôn. Trowch i'r chwith a mynd i lawr yr allt tuag at Bantasaff. Pan mae'r lôn yn gwastatau trowch i'r chwith drwy'r drydedd giât i gerdded i'r Fynachlog a'r Eglwys.

Cerddwch heibio tu blaen yr Eglwys i fynd dros gamfa i lôn. Cerddwch i fyny'r allt a mynd drwy giât mochyn. Cerddwch i fyny'r allt gyda'r wal ar y chwith a throi i'r dde cyn cyrraedd y gamfa. Cerddwch ymlaen gyda'r ffens ar y chwith i fynd dros gamfa yn y ffens. Trowch i'r dde o gwmpas y llwyni i fynd drwy'r giât.

Ar ôl y giât ewch fymryn i'r dde i'r ffens uwchben y chwarel. Dilynwch ymlaen drwy'r eithin a throwch i'r dde i fynd heibio'r tŷ.

Ewch dros y gamfa ar y chwith a cherdded yn syth ymlaen ac wedyn i'r chwith i fyny'r allt ar hyd hen dramffordd i fynd dros gamfa ger giât. Dilynwch y llwybr ar ben y llethr lle cewch olygfeydd eang i bob cyfeiriad. Ewch dros ddwy gamfa arall. Mae yna Bwynt 'Trig' yn y cae hwn, yno ceir golygfeydd godidog. Ewch yn ôl i'r llwybr i fynd dros y gamfa (i'r dde) a cherdded i lawr ar draws y cae a mynd dros gamfa arall i'r Comin. Trowch i'r chwith gan uno a thrac i fyny allt. Pan gyrhaeddwch ben y bryn cewch weld y gofeb yn coffau priodas y brenin George V (1865 – 1936) gyda Mari o Tech.

Ar ôl ymweld â'r gofeb ewch i lawr y stepiau gan fynd ar y llwybr yn fforchio i'r dde at arwydd llwybr. Ewch ar y llwybr hwn sy'n mynd i grib y llethr. Ewch dros ddwy gamfa at fainc. Oddi yma daliwch i'r dde o'r llwyni a throsglwyddydd bychan. Yna ewch fymryn i'r chwith at gamfa a giât. Ewch dros y gamfa hon a'r nesaf a throi i'r dde gerfydd y ffens at gamfa arall. Yna trowch i'r chwith a cherdded gyda'r ffens i'r giât, ewch drwyddi ac yn syth ymlaen i fynd dros gamfa i'r Fynwent Anifeiliaid Anwes. Dilynwch y llwybr drwy'r fynwent heibio'r ffynnon fwrw dymuniadau at y giât. Yn syth wedyn trowch i'r chwith i fynd drwy giât arall. Dilynwch y trac gan ei adael lle mae'n mynd i'r giât fferm i ddal i fynd ymlaen yn syth i fynd dros gamfa wrth ochr y giât. Mae yma eto olygfa wych dros Dreffynnon a thu hwnt.

Daliwch i fynd i lawr yr allt i fynd dros gamfa yn y gornel. Wedi croesi'r gamfa ewch ar y llwybr o'ch blaen sy'n gwyo i'r chwith wedyn i'r dde i fynd i'r fynedfa am y bwthyn. Trowch i'r dde ac wedyn bron yn syth i'r chwith i gerdded gyda'r gwrych ar y dde. Ewch dros y gamfa (o flaen y bwthyn) gan ddilyn y llwybr cul i'r giât mochyn ac allan i'r ffordd. Croeswch dros y ffordd a throwch i'r chwith. Ar ben Park Lane ewch drwy'r giât i'r parc a dilynwch y llwybr o gwmpas y Ganolfan Hamdden. Cerddwch drwy'r giatiaff coffa i'r Stryd Fawr a throwch i'r chwith.

Wrth Fanc HSBC trowch i'r dde i fynd i'r ffordd osgoi fewnol a chroesi yn yr Archfarchnad. Trowch i'r chwith i gyrraedd yn ôl i'r man cychwyn.

Cydnabyddir:-

- Y Daith Wreiddiol gan Norman Closs-Parry

- Lluniau: Norman Closs-Parry



**CYMDEITHAS
THOMAS PENNANT**

"The Father of Cambrian Tourists..."
